

Ysgol Brynhyfryd
Ffordd yr Wyddgrug
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1EG
Ffôn 01824 703933
Ffacs 01824 705345
e-bost: ysgol.brynhyfryd@sirddinbych.gov.uk

Geraint Wyn Parry
Pennaeth



Ysgol Brynhyfryd
Mold Road
Ruthin
Denbighshire
LL15 1EG
Phone 01824 703933
Fax 01824 705345
e-mail: ysgol.brynhyfryd@denbighshire.gov.uk

Geraint Wyn Parry
Headteacher

23ain o Fawrth 2021

Annwyl Riant \ Warcheidwad

Mae eich Mab \ Merch wedi cyrraedd cyfnod yn eu haddysg lle mae angen iddynt wneud eu dewisiadau ar gyfer eu hastudiaethau Cyfnod Allweddol 4 yn Ysgol Brynhyfryd. Oherwydd bod y disgyblion bellach wedi dychwelyd i'r ysgol bydd y broses yn digwydd dros yr wythnosau nesaf.

22^{ain} o Fawrth 2021

- Dychwelodd y disgyblion i'r ysgol a derbyn eu Hadroddiad Naratif.

23^{ain} o Fawrth 2021

- Llyfryn gwybodaeth Opsiynau Blwyddyn 9 wedi cael ei rannu â disgyblion ac wedi ei gyhoeddi ar wefan yr ysgol.
- 'Ffurflen Opsiynau Dewisiadau Cyntaf' Blwyddyn 9 wedi cael ei roi fel copi caled i ddisgyblion.

25^{ain} o Fawrth 2021

- Noson Rieni Blwyddyn 9 Ar-lein – cyfle i siarad efo athrawon pwnc presennol eich plentyn.

26^{ain} o Fawrth 2021

- **Dyddiad cau** ar gyfer cyflwyno '**Ffurflen Opsiynau Dewisiadau Cyntaf**' eich plentyn i'w tiwtor dosbarth.

19^{eg} o Ebrill 2021

- Colofnau Opsiynau Terfynol yn cael eu rhannu â disgyblion.

22^{ain} o Ebrill 2021

- Noson Opsiynau Blwyddyn 9 Ar-lein – cyfle i gyfarfod athrawon y pynciau opsiynau i drafod manylion y cyrsiau mae gan eich plentyn ddiddordeb mewn eu hastudio.

26^{ain} o Ebrill 2021

- **Dyddiad cau** ar gyfer cyflwyno '**Ffurflen Opsiynau Dewisiadau Terfynol**' i'w tiwtor dosbarth.

Wedi darllen y llyfryn opsiynau a thrafod y cyrsiau sydd ar gael â'ch plentyn, cwblhewch y '**Ffurflen Opsiynau Dewisiadau Cyntaf**' a'i ddychwelyd i'r ysgol â'ch plentyn erbyn Dydd Gwener 26ain o Fawrth. Wrth gwblhau'r ffurflen dilynwch y cyfarwyddiadau sydd ar y ffurflen yn ofalus oherwydd bydd y wybodaeth yn cael ei ddefnyddio i greu'r colofnau opsiynau terfynol fydd yn cael ei deilwra i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach cysylltwch â Mrs Searson neu Mr Burke drwy e-bost:

msearson@ysgolbrynhyfryd.co.uk dburke@ysgolbrynhyfryd.co.uk

Yn gywir

Mr Daniel Burke
Pennaeth Cyswllt